

PWYLLGORPENODIADAU

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS (Dirprwy Gadeirydd)

Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws ac R Meirion Jones

WRTH LAW: Dirprwy Brif Weithredwr,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,
Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),
Swyddog Adnoddau Dynol (NH),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd A M Jones

**HEFYD YN
BRESENNOL:** -

1 DATGAN DIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd R Meirion Jones ddatgan diddordeb personol gan ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr, yn dilyn cyngor cyfreithiol roedd modd iddo gymryd rhan yn y cyfarfod.

2 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2022 yn gywir.

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid nad oedd yr ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wedi derbyn y swydd.

Oherwydd sensitifrwyd y materion i'w trafod penderfynodd y Pwyllgor wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod.

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid bod y swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn dal i fod yn wag a bod adroddiad wrthi'n cael ei lunio mewn perthynas â'r opsiynau a'r camau nesaf i'w cymryd mewn perthynas â'r swydd.

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

4 PENODIADAU STAFF

Dirprwy Brif Weithredwr

Adroddodd y Rheolwr AD bod y swydd Dirprwy Brif Weithredwr wedi cael ei hysbysebu'n allanol rhwng 28 Ionawr, 2022 a 21 Chwefror, 2022 yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau ar 27 Ionawr, 2022. Aeth ymlaen i adrodd bod Swyddogion AD wedi llunio rhestr fer drwy gynnal dadansoddiad annibynnol ac o ganlyniad argymhellir bod y Pwyllgor yn nodi pa ymgeisydd/ymgeiswyr y dylid eu cyfweld.

Argymhellir bod y Pwyllgor Penodiadau'n dilyn y broses ganlynol:-

- Aseiad seicometreg annibynnol i'w gynnal gan seicolegydd cymwys i asesu cymwyseddau ymddygiad yr unigolyn, gan nodi unrhyw risgiau efallai y bydd y Pwyllgor Penodiadau'n dymuno'u hystyried cyn dod i benderfyniad;
- Aseiad senario i brofi lled a dyfnder gwybodaeth yr unigolyn mewn perthynas â'r swydd;
- Cyfweiliad proffesiynol gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr, aelod o'r Uwch Dîm Rheoli sydd heb ymgeisio ar gyfer y swydd a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid;
- Aseiad MTQ48 mewn perthynas â chadernid a gwytnwch meddyliol; Bydd canlyniadau'r holl brofion a gynhelir cyn y cyfweiliad terfynol yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor Penodiadau er mwyn llywio eu penderfyniad terfynol.

PENDERFYNWYD derbyn argymhellion y Swyddog ar gyfer y rhestr fer a chefnogi'r broses recriwtio a amlinellir uchod.

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CADEIRYDD**